



Y Bartneriaeth Awyr Agored

Y mudiad

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn elusen a chwmni wedi sefydlu yng Nghapel Curig ond yn gweithio ar draws Gogledd Cymru. Bwriad y cwmni yw ysbrydoli bobl leol i wneud y mwyaf o'r awyr agored drwy hyfforddiant, gwirfoddoli a rhaglenni cyflogaeth.

Un o'r prosiectau yw Llwybrau i Waith. Mae'r rhaglen Llwybrau i Waith wedi'i hanelu at bobl ar hyd Gogledd Cymru sydd un ai'n profi gweithgareddau awyr agored am y tro cyntaf neu sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau personol a/neu broffesiynol, gan arwain at ffordd o fyw mwy actif, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Canlyniadau'r adroddiad

- Roedd y canlyniadau yn dangos yr effaith bositif cafodd y prosiect ar fywydau nifer o unigolion.
- Roedd yr ymchwil yn dangos bod 40% o rai oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig a 60% o rai oedd yn byw mewn mannau trefol wedi gwella eu hiechyd meddwl
- 60% yn adrodd newid yn eu hiechyd corfforol
- 60% yn adrodd eu bod yn teimlo yn llai ynysig
- Roedd y deillionau yn cyfrannu yn bositif at nodau llesiant yng Nghymru yn enwedig—Cymru iachach a Cymru sy'n fwy cyfartal



Be' nesa?

Cafodd y mudiad hyfforddiant ar arweinlyfr a rhaglen rheoli effaith gan Social Value Cymru. Mae nifer o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac felly maent yn gwreiddio'r mesuriadau yma ar draws eu prosiectau. Bu'r Pencampwr Gwerth Cymdeithasol ar y Bwrdd Rheoli ynghlwm a'r gwaith yma ers y cychwyn er mwyn sicrhau bod yna gefnogaeth ar bob lefel.

“Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gwella cyfleoedd pobl Cymru i gyrraedd eu llawn botensial drwy weithgareddau awyr agored. Gallwn weld y gwahaniaeth mae'n prosiectau'n ei wneud i gymaint o bobl, ond mae'n anodd dangos deilliannau positif i'n rhanddeiliaid a phartneriaid cyllidol. Mae bod yn rhan o'r prosiect mesur gwerth cymdeithasol yn ein helpu i ddangos yr enillion ar fuddsoddiad i'n prif randdeiliaid yn ogystal a'n helpu i wneud penderfyniadau mewnol i wella gwasanaethau a chyfeiriad strategol y dyfodol.”

Tracey Evans, Prif Weithredwr.

svc@mantellgwynedd.com

<https://www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html>

